- () Rhaid i’r Corff sefydlu cyrff rhanbarthol i adlewyrchu strwythur y byrddau iechyd yng Nghymru, y cyfeirir at bob un fel Corff Llais y Dinesydd ar gyfer yr ardal y mae pob un yn gweithredu ynddi (y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon fel y “cyrff rhanbarthol”). Mae’r ardal gweithredu ar gyfer pob un o’r cyrff rhanbarthol yr un peth â’r ardaloedd ar gyfer pob un o’r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.
- () Rhaid i’r Corff wneud rheolau i reoleiddio gweithdrefn y cyrff rhanbarthol (gan gynnwys cworwm). Rhaid i reolau o’r fath gynnwys darpariaeth sy’n nodi –
 - (a) bod yn rhaid i draean o’r aelodau ar gyfer pob corff rhanbarthol gael eu penodi gan Weinidogion Cymru,
 - (b) bod yn rhaid i draean o’r aelodau ar gyfer pob corff rhanbarthol gael eu penodi gan sefydliadau gwirfoddol,
 - (c) bod yn rhaid i draean o’r aelodau ar gyfer pob corff rhanbarthol gael eu penodi gan y cyhoedd yn, a
 - (d) na chaniateir i unrhyw gorff rhanbarthol fod yn gysylltiedig â chorff GIG nac awdurdod lleol.
- () At ddibenion y paragraff hwn –
 - (a) ystyr “sefydliadau gwirfoddol” yw sefydliad gwirfoddol o fewn ardal weithredu cyrff rhanbarthol a bennir gan Weinidogion Cymru fel un sydd â digon o ddiddordeb yn y gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol a ddarperir o fewn yr ardal honno
 - (b) ystyr “cysylltiedig” yw bod yn aelod, yn gyfarwyddwr, neu’n ymddiriedolwr corff GIG neu awdurdod lleol.’.

Vaughan Gething

10

Schedule 1, page 13, line 27, leave out ‘, or holding office, as a’ and insert ‘as a non-executive’.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 26, hepgorer ‘, neu ddal swydd fel aelod,’ a mewnosoder ‘anweithredol’.

Vaughan Gething

11

Schedule 1, page 13, after line 28, insert –



'Terms of non-executive membership

- () (1) A non-executive member of the Citizen Voice Body holds office for such period, and on such terms and conditions, as may be specified in the terms of appointment, but this is subject to sub-paragraphs (2) and (4) and paragraph (*second paragraph to be inserted by this amendment*).
- (2) The period of office specified in a non-executive member's terms of appointment may not exceed 4 years.
- (3) A person who has held office as a non-executive member may be reappointed as a non-executive member once only (and sub-paragraph (2) applies in relation to the appointment).
- (4) A non-executive member may resign from office by giving written notice to the Welsh Ministers.
- (5) The Citizen Voice Body may, with the approval of the Welsh Ministers—
- (a) pay its non-executive members remuneration, expenses and allowances;
 - (b) pay pensions to, or in respect of, persons who have been non-executive members of the Body, and amounts for or towards provision of pensions to, or in respect of, persons who have been non-executive members of the Body.

Removal of non-executive members from office

- () (1) The Welsh Ministers may by written notice remove a non-executive member of the Citizen Voice Body from office if—
- (a) the Welsh Ministers are satisfied that the person is unfit to continue as a member, or
 - (b) the Welsh Ministers are satisfied that the person is unable or unwilling to exercise the functions of a member.
- (2) The Welsh Ministers may by written notice suspend a non-executive member of the Body from office if it appears to them that there may be grounds to exercise the power in sub-paragraph (1).
- (3) A person ceases to be a non-executive member of the Body if the person becomes a member of the Body's staff.'

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 27, mewnosoder —

'Telerau aelodaeth anweithredol

- () (1) Mae aelod anweithredol o Gorff Llais y Dinesydd yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (4) a pharagraff (*yr ail baragraff sydd i'w fewnosod gan y gwelliant hwn*).
- (2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 4 blynedd.



- (3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod anweithredol gael ei ailbenodi'n aelod anweithredol unwaith yn unig (ac mae is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r penodiad).
- (4) Caiff aelod anweithredol ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.
- (5) Caiff Corff Llais y Dinesydd, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru –
 - (a) talu tâl, treuliau a lwfansau i'w aelodau anweithredol;
 - (b) talu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Corff, neu mewn cysylltiad â phersonau o'r fath, a symiau am ddarparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Corff, neu mewn cysylltiad â phersonau o'r fath.

Diswyddo aelodau anweithredol

- () (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig ddiswyddo aelod anweithredol o Gorff Llais y Dinesydd –
 - (a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig atal dros dro aelod anweithredol o'r Corff os yw'n ymddangos iddynt y gall fod sail dros arfer y pŵer yn is-baragraff (1).
- (3) Mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol o'r Corff os daw'r person yn aelod o staff y Corff.'.

Vaughan Gething

12

Schedule 1, page 13, line 30, leave out paragraph 4.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 29, hepgorer paragraff 4.

Helen Mary Jones

59

Schedule 1, page 13, line 31, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 30, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.

Vaughan Gething

13

Schedule 1, page 14, line 2, leave out paragraph 5.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 2, hepgorer paragraff 5.



Helen Mary Jones 60

Schedule 1, page 14, line 2, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 2, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

Helen Mary Jones 61

Schedule 1, page 14, line 6, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 7, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

Helen Mary Jones 62

Schedule 1, page 14, line 7, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 8, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.

Vaughan Gething 14

Schedule 1, page 14, line 10, leave out paragraph 6.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 10, hepgorer paragraff 6.

Helen Mary Jones 63

Schedule 1, page 14, line 10, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 10, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

Vaughan Gething 15

Schedule 1, page 14, line 18, leave out 'Citizen Voice Body must appoint a person as its' and insert 'non-executive members of the Citizen Voice Body must appoint a person as the Body's'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 19, hepgorer 'Gorff Llais y Dinesydd benodi person yn brif weithredwr iddo' a mewnosoder 'aelodau anweithredol Corff Llais y Dinesydd benodi person yn brif weithredwr y Corff'.

Vaughan Gething 16

Schedule 1, page 14, line 20, leave out 'Body' and insert 'non-executive members'.
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 21, hepgorer 'y Corff' a mewnosoder 'yr aelodau anweithredol'.



Helen Mary Jones 64

Schedule 1, page 14, line 23, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 23, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

Helen Mary Jones 65

Schedule 1, page 14, line 31, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 30, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

Angela Burns 83

Schedule 1, page 14, after line 31, insert –

'Indemnity cover

() (1) The Welsh Ministers must make regulations for the purpose of providing that, in prescribed circumstances, the Citizen Voice Body must hold approved indemnity cover for the benefit of its staff and volunteers.

(2) For the purposes of this paragraph –

“approved body” (“*corff cymeradwy*”) means a person or persons approved in relation to indemnity cover of any description, after such consultation as may be prescribed, by the Welsh Ministers or by such other person as may be prescribed,

“approved indemnity cover” (“*sicrwydd indemniad cymeradwy*”) means indemnity cover made –

(a) on prescribed terms, and

(b) with an approved body,

“indemnity cover” (“*sicrwydd indemniad*”), in relation to a person who is a volunteer with, or a member of staff of, the Citizen Voice Body, means a contract of insurance or other arrangement made for the purpose of indemnifying them, and any person prescribed in relation to them, to any prescribed extent against any liability which arises out of the provision of services in accordance with arrangements made by the Citizen Voice Body with them.’.

Atodlen 1, tudalen 14, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'Sicrwydd indemniad

() (1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddibenion darparu bod yn rhaid bod gan Gorff Llais y Dinesydd, o dan amgylchiadau rhagnodedig, sicrwydd indemniad cymeradwy er lles ei staff a'i wirfoddolwyr.



(2) At ddibenion y paragraff hwn –

ystyr “corff cymeradwy” (“*approved body*”) yw person neu bersonau cymeradwy mewn perthynas â sicrwydd indemniad o unrhyw ddisgrifiad, ar ôl unrhyw ymgynghoriad a ragnodir, gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall a ragnodir,

ystyr “sicrwydd indemniad” (“*indemnity cover*”), mewn perthynas â pherson sy’n wirfoddolwr gyda Chorff Llais y Dinesydd, neu sy’n aelod o staff y Corff hwnnw, yw contract yswiriant neu drefniant arall a wneir at ddiben eu hindemnio, ac unrhyw berson arall a ragnodir mewn perthynas â hwy, i unrhyw raddau rhagnodedig yn erbyn unrhyw atebolrwydd sy’n deillio o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfniadau a wneir gyda hwy gan Gorff Llais y Dinesydd,

ystyr “sicrwydd indemniad cymeradwy” (“*approved indemnity cover*”) yw sicrwydd indemniad a wneir –

- (a) ar delerau rhagnodedig, a
- (b) gyda chorff cymeradwy.’.

Vaughan Gething

17

Schedule 1, page 15, after line 26, insert –

‘Validity of proceedings and acts

- () The validity of proceedings and acts of the Citizen Voice Body (or of its committees and sub-committees) is not affected by –
 - (a) any vacancy in the Body’s membership, or
 - (b) any defect in the appointment of a member.’.

Atodlen 1, tudalen 15, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘Dilysrwydd trafodion a gweithredoedd

- () Nid yw’r materion a ganlyn yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion a gweithredoedd Corff Llais y Dinesydd (nac ar ddilysrwydd trafodion a gweithredoedd ei bwyllgorau a’i is-bwyllgorau) –
 - (a) unrhyw swydd wag ymhlith aelodaeth y Corff, neu
 - (b) unrhyw ddiffyg o ran penodiad aelod.’.

Angela Burns

84

Schedule 1, page 16, line 8, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 8, hepgorer ‘Caiff Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Rhaid i Weinidogion’.



Angela Burns 85

Schedule 1, page 16, line 9, after 'appropriate', insert 'and ensure that the Citizen Voice Body has sufficient resources to undertake its functions effectively'.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 10, ar ôl 'briodol', mewnosoder 'a sicrhau bod gan Gorff Llais y dinesydd ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol'.

Vaughan Gething 18

Schedule 1, page 17, after line 29, insert –

“non-executive member” has the meaning given by paragraph (*paragraph to be inserted by amendment 9*)(2)‘.

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 31, ar ôl 'hon', mewnosoder –

‘mae i “aelod anweithredol” yr ystyr a roddir gan baragraff (*y paragraff a fewnosodir gan welliant 9*)(2)‘.

Helen Mary Jones 45

Section 13, page 8, line 6, after 'services', insert –

‘, and

- (b) establish a structure for itself which includes representation in each local authority area in Wales, to ensure that the Citizen Voice Body –
 - (i) represents the interests of people in all parts of Wales, and
 - (ii) is accessible to people in all parts of Wales’.

Adran 13, tudalen 8, llinell 7, ar ôl 'cymdeithasol', mewnosoder –

‘, a

- (b) sefydlu strwythur i'w hun sy'n cynnwys sylwadau ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd –
 - (i) yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru, a
 - (ii) yn hygyrch i bobl ym mhob rhan o Gymru’.

Angela Burns 73

Section 13, page 8, line 6, after 'services', insert –

‘, and

- (b) establish regional bodies reflecting the health board structure within Wales to ensure that the Citizen Voice Body –
 - (i) represents the interests of people in all parts of Wales, and



- (ii) is accessible to people in all parts of Wales’.

Adran 13, tudalen 8, llinell 7, ar ôl ‘cymdeithasol’, mewnosoder –

’, ac

- (b) sefydlu cyrff cyhoeddus i adlewyrchu strwythur y byrddau iechyd yng Nghymru i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd –
- (i) yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru, a
- (ii) yn hygyrch i bobl ym mhob rhan o Gymru’.

Vaughan Gething

1

Section 14, page 8, after line 13, insert –

- ‘(3) The statement of policy must in particular specify how, in exercising its functions, the Citizen Voice Body proposes to ensure that –
- (a) the Body represents the interests of people in all parts of Wales, and
- (b) the Body is accessible to people in all parts of Wales.’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- ‘(3) Rhaid i’r datganiad polisi bennu’n benodol sut y mae Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu sicrhau –
- (a) bod y Corff yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru, a
- (b) bod y Corff yn hygyrch i bobl ym mhob rhan o Gymru.’.

Helen Mary Jones

46

Section 15, page 8, after line 21, insert –

- ‘(c) the Welsh Ministers.’.

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘(c) Gweinidogion Cymru.’.

Angela Burns

74

Section 15, page 8, after line 21, insert –

- ‘(c) the Welsh Ministers, and
- (d) any other person or body who makes decisions or exercises functions on behalf of a local authority or NHS body.’.

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘(c) Gweinidogion Cymru, a



- (d) unrhyw berson neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau neu sy'n arfer swyddogaethau ar ran awdurdod lleol neu gorff GIG.'.

Helen Mary Jones

47

Section 15, page 8, after line 21, insert—

- '() The recipient of any representation made under subsection (1) must prepare a response to each representation made.
- () A response under subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*) must state—
- (a) the extent to which the recipient accepts the representation, and
- (b) any actions that the recipient intends to take in relation to the representation.
- () As soon as reasonably practicable, the recipient must publish the response on their website and send the response to the Citizen Voice Body.'.

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r sawl sy'n cael unrhyw sylwadau a wneir o dan is-adran (1) baratoi ymateb i bob un.
- () Rhaid i ymateb o dan is-adran (*is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y welliant hwn*) nodi—
- (a) y graddau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn eu derbyn, a
- (b) unrhyw gamau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r sylwadau hynny.
- () Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r sawl sy'n cael y sylwadau gyhoeddi'r ymateb ar ei wefan ac anfon ymateb at Gorff Llais y Dinesydd.'.

Vaughan Gething

2

Section 15, page 8, after line 23, insert—

- '(4) The Welsh Ministers must issue guidance to the persons mentioned in subsection (2), in relation to representations made under this section.
- (5) Those persons must have regard to the guidance in complying with subsection (3).'

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

- '(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r personau a grybwyllir yn is-adran (2), mewn perthynas â sylwadau a gyflwynir o dan yr adran hon.
- (5) Rhaid i'r personau hynny roi sylw i'r canllawiau wrth gydymffurfio ag is-adran (3).'

Angela Burns

75

Section 16, page 9, after line 14, insert—



- '() Subsections (*second subsection to be inserted by this amendment*) and (*third subsection to be inserted by this amendment*) apply in respect of any concern as defined in the National Health Service (Concerns, Complaints and Redress Arrangements) (Wales) Regulations 2011 and any complaint as defined in the Social Services Complaints Procedure (Wales) Regulations 2014.
- () The Welsh Ministers must by regulations provide for a system which enables a joint investigation to be carried out by an NHS body and a local authority into any concern or complaint raised by or on behalf of any person which relates to the provision of both health services and social services.
- () The regulations in subsection (*second subsection to be inserted by this amendment*) must provide for—
 - (a) timescales within which a complaint or concern must be received,
 - (b) the investigation process,
 - (c) the reporting process, and
 - (d) redress.
- () Regulations under subsection (*second subsection to be inserted by this amendment*) may not be made unless a draft of the regulations has been laid before, and approved by resolution of the National Assembly for Wales. '.

Adran 16, tudalen 9, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- '() Mae is-adrannau (*ail is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*) a (*trydydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bryder fel y'i diffinnir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ac unrhyw gŵyn fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 .
- () Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer system sy'n galluogi corff GIG ac awdurdod lleol i gynnal ymchwiliad ar y cyd i unrhyw bryder neu gŵyn a godir gan unrhyw berson neu ar ran unrhyw berson sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- () Rhaid i'r rheoliadau yn is-adran (*trydydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*) ddarparu ar gyfer—
 - (a) y terfynau amser y mae'n rhaid i gŵyn neu bryder ddod i law,
 - (b) proses yr ymchwiliad,
 - (c) y broses adrodd, a
 - (d) iawn.
- () Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (*trydydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*) oni bai bod drafft o'r rheoliadau wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.'.



Vaughan Gething

3

Page 9, after line 33, insert a new section –

‘Access to premises by Citizen Voice Body: duty to have regard to code of practice

(i) Code of practice on access to premises

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a code of practice about –
 - (a) requests made by the Citizen Voice Body for access to premises for the purpose of seeking the views of individuals in respect of health services or social services, and
 - (b) where access to those premises has been agreed, engagement with individuals at those premises for that purpose.
- (2) “Premises” in subsection (1) means any premises at which health services or social services are being provided.
- (3) The Citizen Voice Body must have regard to the code.
- (4) Each local authority and NHS body must have regard to the code in exercising any function that relates to the provision of health services or social services.
- (5) In preparing the code the Welsh Ministers must consult –
 - (a) the Citizen Voice Body;
 - (b) each local authority;
 - (c) each NHS body;
 - (d) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.’.

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

‘Mynediad i fangreoedd gan Gorff Llais y Dinesydd: dyletswydd i roi sylw i god ymarfer

(i) Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch –
 - (a) ceisiadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd i gael mynediad i fangreoedd at ddiben ceisio barn unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a
 - (b) pan fo mynediad i’r mangreoedd hynny wedi ei gytuno, ymgysylltu ag unigolion yn y mangreoedd hynny at y diben hwnnw.
- (2) Ystyr “mangreoedd” yn is-adran (1) yw unrhyw fangreoedd y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ynddynt.
- (3) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i’r cod.
- (4) Rhaid i bob awdurdod lleol a chorff GIG roi sylw i’r cod wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.
- (5) Wrth lunio’r cod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
 - (a) Corff Llais y Dinesydd;



- (b) pob awdurdod lleol;
- (c) pob corff GIG;
- (d) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.'.

Helen Mary Jones

48

Page 9, after line 33, insert a new section –

'() Entry to premises

- (1) In this section–
 - (a) “authorised representative” means any person who is authorised by the Citizen Voice Body to enter premises, and
 - (b) “premises” means
 - (i) any premises owned or controlled by an NHS body or local authority at which health services or social services are provided,
 - (ii) any other premises where health services or social services are provided by an NHS body or local authority.
- (2) An authorised representative of the Citizen Voice Body may, for the purposes of carrying out any of the Citizen Voice Body’s functions–
 - (a) enter and view premises, and
 - (b) observe the carrying on of activities on those premises.
- (3) Subsection (2) does not apply in respect of any premises, or parts of premises, if, in the opinion of the Citizen Voice Body, the presence of an authorised representative on those premises, or those parts of premises, would compromise –
 - (a) the effective provision of health services or social services; or
 - (b) the safety, privacy or dignity of any person.
- (4) The Citizen Voice Body and all authorised representatives must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers in relation to this section.'.

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

'() Mynediad i fangre

- (1) Yn yr adran hon –
 - (a) ystyr “cynrychiolydd awdurdodedig” yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan Gorff Llais y Dinesydd i fynd i fangre, a
 - (b) ystyr “mangre” yw –
 - (i) unrhyw fangre sydd o dan berchenogaeth neu o dan reolaeth corff GIG neu awdurdod lleol lle y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol,



- (ii) unrhyw fangre arall lle y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol gan gorff GIG neu awdurdod lleol.
- (2) Caiff cynrychiolydd awdurdodedig Corff Llais y Dinesydd, at ddibenion cynnal unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Corff Llais y Dinesydd –
 - (a) mynd i fangre i'w gweld a
 - (b) arsylwi gweithgareddau a gynhelir yn y fangre honno.
- (3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw fangre, neu ran o fangre, os byddai presenoldeb cynrychiolydd awdurdodedig, ym marn Corff Llais y Dinesydd, yn y fangre honno, neu ran o'r fangre honno, yn cyfaddawdu –
 - (a) darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn effeithiol; neu
 - (b) diogelwch, preifatrwydd neu urddas unrhyw berson.
- (4) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd a phob cynrychiolydd awdurdodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r adran hon.'.

Helen Mary Jones

49

Page 9, after line 33, insert a new section –

'() Duty to co-operate with the Citizen Voice Body

Each NHS body and local authority, when exercising its social services functions, must co-operate with the Citizen Voice Body in the exercise of its functions.'

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

'() Dyletswydd i gydweithredu â Chorff Llais y Dinesydd

Rhaid i bob corff GIG ac awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gydweithredu â Chorff Llais y Dinesydd wrth arfer ei swyddogaethau.'

Angela Burns

76

Page 9, after line 33, insert a new section –

'() Entry to premises

(1) In this section –

- (a) "authorised representative" means any person who is authorised by the Citizen Voice Body to enter premises,
- (b) "excluded premises" means –
 - (i) parts of a care home which are not communal areas,
 - (ii) premises or parts of any premises used as residential accommodation for employees of an NHS body, local authority or other body which provides health services or social services at the premises,



- (iii) premises which are occupied by one or more persons as their home and which at least one of those persons occupies under a tenancy or licence,
- (c) “premises” means –
 - (i) any premises owned or controlled by an NHS body or local authority at which health services or social services are provided,
 - (ii) any other premises where health services or social services are provided by an NHS body or local authority.
- (2) An authorised representative of the Citizen Voice Body may, for the purposes of carrying out any of the Citizen Voice Body’s functions –
 - (a) enter and view premises, and
 - (b) observe the carrying on of activities on those premises.
- (3) Subsection (2) does not apply in respect of –
 - (a) any premises, or parts of premises, if, in the opinion of the Citizen Voice Body, the presence of an authorised representative on those premises, or those parts of premises, would compromise –
 - (i) the effective provision of health services or social services, or
 - (ii) the safety, privacy or dignity of any person, or
 - (b) excluded premises.
- (4) The Welsh Ministers must prepare and publish a code of practice which includes guidance relating to –
 - (a) the circumstances in which the Citizen Voice Body may have access to premises for the purpose of seeking the views of individuals in respect of health services or social services,
 - (b) the circumstances in which the Citizen Voice Body may enter excluded premises upon the invitation of members of the public for the purpose of seeking the views of those individuals in respect of health services or social services,
 - (c) where access to premises or excluded premises is permitted or has been agreed, engagement with individuals at those premises or excluded premises for the purpose of seeking the views of individuals in respect of health services or social services, and
 - (d) the obligations of each local authority and NHS body to ensure that where appropriate access to premises is permitted by all third party providers of health and social care, including private sector providers, through appropriate commissioning arrangements.
- (5) In preparing the code of practice required by subsection (4) the Welsh Ministers must consult –
 - (a) the Citizen Voice Body,
 - (b) each local authority,
 - (c) each NHS body, and
 - (d) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.



- (6) The Citizen Voice Body and all authorised representatives must have regard to the code of practice issued by the Welsh Ministers in relation to this section.’.

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

(i) Mynediad i fangre

(1) Yn yr adran hon –

(a) ystyr “cynrychiolydd awdurdodedig” yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan Gorff Llais y Dinesydd i fynd i mewn i fangre,

(b) ystyr “mangre wedi’i heithrio” yw –

(i) rhannau o gartref gofal nad ydynt yn fannau cymunedol,

(ii) mangre neu rannau o fangre a ddefnyddir yn llety preswyl i gyflogeion corff GIG, cyflogeion awdurdod lleol neu gyflogeion corff arall sy’n darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn y fangre,

(iii) mangre a feddiennir gan un neu ragor o bersonau fel ei gartref ac y mae o leiaf un o’r personau hynny yn meddiannu o dan denantiaeth neu drwydded,

(c) ystyr “mangre” yw –

(i) unrhyw fangre sydd o dan berchenogaeth neu o dan reolaeth corff GIG neu awdurdod lleol lle y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol,

(ii) unrhyw fangre arall lle y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol gan gorff GIG neu awdurdod lleol.

(2) Caiff cynrychiolydd awdurdodedig Corff Llais y Dinesydd, at ddibenion cynnal unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Corff Llais y Dinesydd –

(a) mynd i fangre i’w gweld, a

(b) arsylwi gweithgareddau a gynhelir yn y fangre honno.

(3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys mewn cysylltiad â –

(a) unrhyw fangre, neu ran o fangre, os byddai presenoldeb cynrychiolydd awdurdodedig, ym marn Corff Llais y Dinesydd, yn y fangre, neu ran o’r fangre honno, yn cyfaddawdu –

(i) darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn effeithiol; neu

(ii) diogelwch, preifatrwydd neu urddas unrhyw berson, neu

(b) mangre wedi’i heithrio.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi cod ymddygiad sy’n cynnwys canllawiau mewn perthynas â –

(a) yr amgylchiadau y caniateir i Gorff Llais y Dinesydd gael mynediad i fangre at ddibenion ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol,



- (b) yr amgylchiadau y caniateir i Gorff Llais y Dinesydd fynd i fangre wedi'i heithrio ar wahoddiad aelodau'r cyhoedd at ddibenion ceisio barn yr unigolion hynny mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol,
 - (c) mewn achos pan fo mynediad i fangre neu fangre wedi'i heithrio wedi'i ganiatáu neu wedi'i gytuno, ymgysylltu ag unigolion yn y fangre honno neu'r fangre wedi'i heithrio honno at ddibenion ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a
 - (d) rhwymedigaethau pob awdurdod lleol a chorff GIG i sicrhau lle bo'n briodol y caiff mynediad priodol i fangre ei ganiatáu gan bob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol trydydd parti, gan gynnwys darparwyr sector preifat, drwy drefniadau comisiynu priodol.
- (5) Wrth baratoi'r cod ymarfer sy'n ofynnol gan is-adran (4) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
- (a) Corff Llais y Dinesydd,
 - (b) pob awdurdod lleol,
 - (c) pob corff GIG, a
 - (d) y personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd a phob cynrychiolydd awdurdodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r adran hon.'

Angela Burns

77

Page 9, after line 33, insert a new section –

- '() Duty to provide information, advice and training to volunteers and staff of Citizen Voice Body**
- (1) The Citizen Voice Body must secure the provision of information, advice and training to its volunteers and staff.
 - (2) In exercising its functions under this section, the Citizen Voice Body must have regard to any guidance given from time to time by the Welsh Ministers.'

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

- '() Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff Corff Llais y Dinesydd**
- (1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant yn cael eu darparu i'w wirfoddolwyr a'i staff.
 - (2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.'



Helen Mary Jones

50

Page 10, after line 32, insert a new section –

'PART ()

DUTY OF CO-OPERATION

() Duty upon relevant bodies to co-operate

- (1) All relevant bodies must work collaboratively and in co-operation with each other in order to secure improvements when providing health services or social services.
- (2) In discharging the duty in subsection (1), relevant bodies must ensure that the needs of the individuals to whom the health services or social services are being provided are paramount.'

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'RHAN ()

DYLETSWYDD CYDWEITHREDU

() Dyletswydd ar gyrff perthnasol i gydweithredu

- (1) Rhaid i bob corff perthnasol gyfdlafurio a chydweithredu er mwyn sicrhau gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.
- (2) Wrth gyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (1), rhaid i gyrff perthnasol sicrhau bod anghenion unigolion y darperir y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol iddynt o'r pwys mwyaf.'

Helen Mary Jones

51

Page 10, after line 32, insert a new section –

'() Guidance given by the Welsh Ministers

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance in relation to the duty set out in section (*section to be inserted by amendment 50*) of this Part no later than one year from the date upon which this Act receives Royal Assent.
- (2) A relevant body must have regard to the guidance issued by the Welsh Ministers under subsection (1).'

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru



- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd a nodir yn adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 50*) o'r Rhan hon heb fod yn hwyrach na blwyddyn o'r dyddiad y bydd y Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.
- (2) Rhaid i gorff perthnasol roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).'

Helen Mary Jones

52

Page 10, after line 32, insert a new section –

'() Interpretation of this Part

- (1) A reference in this Part (*to be inserted by amendment 50*) to health services is to services provided in Wales under or by virtue of the 2006 Act for or in connection with –
 - (a) the prevention, diagnosis or treatment of illness,
 - (b) the promotion and protection of public health.
- (2) In subsection (1), "illness" has the meaning given in section 206 of the 2006 Act.
- (3) In this Part –

"health care provider" ("*darparwr gofal iechyd*") means a primary care provider, Local Health Board, NHS Trust or Special Health Authority;

"primary care provider" ("*darparwr gofal sylfaenol*") means a person who provides health care on behalf of a Local Health Board by virtue of a contract, agreement or arrangement under Part 4, 5, 6 or 7 of the 2006 Act between the person and the Local Health Board;

"relevant body" ("*corff perthnasol*") means a health care provider or a local authority exercising its social services functions;

"social services" ("*gwasanaethau cymdeithasol*") means services provided in the exercise of a local authority's social services functions;

"social services functions" ("*swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol*"), in relation to a local authority, has the same meaning as it has for the purposes of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) (see, in particular, section 143 of that Act);

"Special Health Authority" ("*Awdurdod Iechyd Arbennig*") means a body established under section 22 of the 2006 Act; but does not include any cross-border Special Health Authority (within the meaning of section 8A(5) of the 2006 Act) other than NHS Blood and Transplant.'

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Dehongli'r Rhan hon

- (1) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon (*i'w mewnosod gan welliant 50*) at wasanaethau iechyd yn gyfeiriad at wasanaethau a ddarperir yng Nghymru o dan neu yn rhinwedd Ddeddf 2006 neu mewn cysylltiad ag –



- (a) atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin;
 - (b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.
- (2) Yn is-adran (1), mae i “salwch” yr ystyr a roddir i “illness” yn adran 206 o Ddeddf 2006.
- (3) Yn y Rhan hon—

ystyr “Awdurdod Iechyd Arbennig” (“*Special Health Authority*”) yw corff a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw’n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i “cross-border Special Health Authority” yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006) ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau’r GIG,

ystyr “corff perthnasol” (“*relevant body*”) yw darparwr gofal iechyd neu awdurdod lleol sy’n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol,

ystyr “darparwr gofal iechyd” (“*health care provider*”) yw darparwr gofal sylfaenol, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig,

ystyr “darparwr gofal sylfaenol” (“*primary care provider*”), yw person sy’n darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant o dan Ran 4, 5, 6 neu 7 o Ddeddf 2006 rhwng y person a’r Bwrdd Iechyd Lleol,

ystyr “gwasanaethau cymdeithasol” (“*social services*”) yw gwasanaethau a ddarperir wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, mae i “swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol” (“*social services functions*”), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yr un ystyr ag sydd iddo at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (gweler, yn benodol, adran 143 o’r Ddeddf honno).’.

Helen Mary Jones

53

Page 10, after line 32, insert a new section—

PART ()

CREATION OF A SINGLE HEALTH AND CARE INSPECTORATE

(i) Merging of Healthcare Inspectorate Wales and Care Inspectorate Wales

- (1) The Welsh Ministers shall by order merge the Healthcare Inspectorate Wales and the Care Inspectorate Wales.
- (2) In this section, to “merge” means—
 - (a) to abolish each of the Healthcare Inspectorate Wales and the Care Inspectorate Wales, create a new body corporate and transfer some or all of the functions of the Healthcare Inspectorate Wales or the Care Inspectorate Wales to the new body corporate, or



- (b) to abolish one of the Healthcare Inspectorate Wales or the Care Inspectorate Wales and to transfer some or all of the functions of the abolished body to the remaining body.
- (3) Where subsection (2)(a) is applied for the purposes of an order made under subsection (1) the new body corporate must be named the “Health and Care Inspectorate Wales”.
- (4) Where subsection 2(b) is applied for the purposes of an order made under subsection (1) the remaining body must be renamed the “Health and Care Inspectorate Wales”.

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

‘RHAN ()

CREU UN AROLYGIAETH IECHYD A GOFAL

() **Uno Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru**

- (1) Bydd Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, yn uno Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.
- (2) Yn yr adran hon, ystyr “uno” yw –
 - (a) dileu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, creu corff corfforaethol newydd, a throsglwyddo pob un o swyddogaethau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, neu rai ohonynt, i’r corff corfforaethol newydd, neu
 - (b) dileu naill ai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru neu Arolygiaeth Gofal Cymru a throsglwyddo pob un o swyddogaethau’r corff a ddiddymwyd, neu rai ohonynt, i’r corff sy’n weddill.
- (3) Lle caiff is-adran (2)(a) ei chymhwyso at ddibenion gorchymyn a wneir o dan is-adran (1) enw’r corff corfforaethol newydd fydd “Arolygiaeth Iechyd a Gofal Cymru”.
- (4) Lle caiff is-adran (2)(b) ei chymhwyso at ddibenion gorchymyn a wneir o dan is-adran (1) enw’r corff corfforaethol newydd fydd “Arolygiaeth Iechyd a Gofal Cymru.”.

Helen Mary Jones

54

Page 10, after line 32, insert a new section –

‘() **How functions are to be exercised**

- (1) An order made under section (*section to be inserted by amendment 53*) must contain provision that the new Health and Care Inspectorate Wales has complete discretion as to the manner in which its functions are exercised and is not subject to the direction or control of the National Assembly for Wales or the Welsh Government.
- (2) But this discretion is subject to the aim that all functions must be carried out efficiently and cost-effectively.’.



Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer

- (1) Rhaid i orchymyn a wneir o dan adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 53*) gynnwys darpariaeth bod gan Arolygiaeth Iechyd a Gofal newydd Cymru ddisgresiwn llwyr ynghylch sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth Cymru.
- (2) Ond mae'r disgresiwn hwn yn ddarostyngedig i'r nod bod yn rhaid i'r holl swyddogaethau gael eu cyflawni'n effeithlon ac yn gosteffeithiol'.

Helen Mary Jones

55

Page 10, after line 32, insert a new section –

'() Merging of Healthcare Inspectorate Wales and Care Inspectorate Wales: consequential provisions

- (1) An order under section (*section to be inserted by amendment 53*) may contain consequential, supplementary, incidental or transitional provision, or savings.
- (2) Where an order under section (*section to be inserted by amendment 53*) transfers functions, the power in subsection (1) includes power to make consequential or supplementary provision –
 - (a) to modify the constitutional or funding arrangements of the transferee or the transferor, or
 - (b) to modify the functions of the transferee or the transferor.
- (3) Where an order under section (*section to be inserted by amendment 53*) modifies functions of a body, the power in subsection (1) includes power to make consequential or supplementary provision to modify the constitutional or funding arrangements of the body.'

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Uno Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru: darpariaethau canlyniadol

- (1) Caiff gorchymyn a wneir o dan adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 53*) gynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth drosiannol, neu ddarpariaeth arbed.
- (2) Pan fo gorchymyn o dan adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 53*) yn trosglwyddo swyddogaethau, mae'r pŵer yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol neu ddarpariaeth atodol –
 - (a) i addasu trefniadau cyfansoddiadol neu drefniadau ariannu'r trosglwyddai neu'r trosglwyddydd, neu
 - (b) i addasu swyddogaethau'r trosglwyddai neu'r trosglwyddydd.



- (3) Pan fo gorchymyn o dan adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 53*) yn addasu swyddogaethau corff, mae'r pŵer yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol neu ddarpariaeth atodol i addasu trefniadau cyfansoddiadol neu drefniadau ariannu'r corff.'.

Helen Mary Jones

56

Page 10, after line 32, insert a new section –

'() Procedure for making an order

An order made under section (*section to be inserted by amendment 53*) may not be made unless a draft of the order has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.'.

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn

Ni chaniateir gwneud gorchymyn a wneir o dan is-adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 53*) oni bai bod drafft o'r gorchymyn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.'.

Angela Burns

78

Page 10, after line 32, insert a new section –

'() Guidance given by the Welsh Ministers

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance in relation to the duty set out in section (*section to be inserted by amendment 50*) of this Part.
- (2) A relevant body must have regard to the guidance issued by the Welsh Ministers under subsection (1).'

Tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

'() Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd a nodir yn adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 50*) o'r Rhan hon.
- (2) Rhaid i gorff perthnasol roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).'

Helen Mary Jones

57

Section 23, page 11, line 27, after 'Act', insert ', save for section (*section to be inserted by amendment 56*)'.



Adran 23, tudalen 11, llinell 27, ar ôl 'hon', mewnosoder ', ac eithrio adran (*adran i'w mewnosod gan welliant 56*),'

Angela Burns 79

Section 23, page 11, line 27, after 'Act', insert ', save for section 16(*second subsection to be inserted by amendment 75*)',

Adran 23, tudalen 11, llinell 27, ar ôl 'hon', mewnosoder 'ac eithrio adran 16(*ail is-adran i'w mewnosod gan welliant 75*)'.

Helen Mary Jones 66

Schedule 3, page 22, after line 18, insert –

'The Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018

() (1) In Schedule 6 to the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018 (S.I 2018/441 (W.77)) ("the 2018 Regulations"), insert in the appropriate place –

"The Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales" ("The Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales").

(2) The amendment made by this paragraph does not affect the power to make further regulations amending or revoking the 2018 Regulations.'

Atodlen 3, tudalen 22, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

() (1) Yn Atodlen 6 i Reolaiadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (O.S. 2018/441 (Cy.77)) ("Rheoliadau 2018"), mewnosoder yn y lle priodol –

"Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru" ("The Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales").

(2) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y paragraff hwn yn effeithio ar y pŵer i wneud rheoliadau pellach i ddiwygio neu ddirymu Rheoliadau 2018.'

Vaughan Gething 8

Section 26, page 12, line 9, leave out 'expedient' and insert 'appropriate'.

Adran 26, tudalen 12, llinell 11, hepgorer 'hwylus' a mewnosoder 'briodol'.

